# Newidiadau i'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir (Regulated Activity) gyda Phlant o 1/9/2026

## DILEU'R EITHRIAD GORUCHWYLIAETH

**Ar hyn o bryd nid yw pobl sydd bob amser dan oruchwyliaeth wrth weithio gyda phlant yn cael eu cysidro o fod mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.**

### BYDD HYN YN NEWID AR FEDI 1AF, 2026!

**O 1 Medi 2026 ymlaen**, bydd gweithwyr neu wirfoddolwyr sy'n addysgu, goruchwylio, arwain neu ofalu am blant yn aml neu'n ddwys (yn wythnosol, bedair gwaith neu fwy mewn 30 diwrnod, neu dros nos rhwng 2 am a 6 am) mewn Gweithgaredd a Reoleiddir gyda phlant, **p'un a ydynt yn cael eu goruchwylio ai peidio**. Ni fydd y rheolau yn newid ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn Gweithgaredd a Reoleiddir oherwydd eu bod yn darparu gofal personol. Bydd y rhai sy'n gweithio yn anaml yn aros mewn gweithgaredd nas rheoleiddir oni bai eu bod yn gwneud gofal personol gyda phlant.

**Sut bydd hyn yn effeithio ar fy eglwys?**

Mae llawer o bobl sy'n gweithio gyda phlant ar hyn o bryd yn gwneud hynny heb oruchwyliaeth ac felly maent eisoes mewn Gweithgaredd a Reoleiddir. OND o 1 Medi 2026 bydd y rhai sy'n gweithio gyda phlant yn aml ac o dan oruchwyliaeth bob amser hefyd yn gwneud Gweithgaredd a Reoleiddir gyda phlant a bydd angen gwiriad manwl gyda gwiriad o restr gwahardd plant.

**A fydd angen i mi gyflwyno cais newydd?**

Bydd pob cais newydd o fis Medi yn dilyn y rheolau newydd. I'r rhai a fydd yn symud i mewn i Weithgaredd a Reoleiddir o'r 1 Medi 2026, oherwydd y newid uchod, dylech asesu risgiau'r rôl a gwneud cais am y lefel briodol o wiriad. Cysylltwch â'r Panel am gyngor os nad ydych yn siŵr.

***Sylwch fod Gweithgaredd a Reoleiddir yn rhywbeth na all unigolyn gwaharddedig ei wneud. Mae unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant yn torri'r gyfraith os ydynt yn ceisio gwneud Gweithgaredd Rheoledig ac mae'r sefydliad sy'n caniatáu iddynt wneud gwaith o'r fath hefyd yn torri'r gyfraith***

***Gallwch ddarllen mwy am hyn ar wefan Gov.uk:***

***Change to the definition of regulated activity with children from 1 September 2026 - GOV.UK***

**Panel Diogelu Cydenwadol**

**11/8/2026**